

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor, nos Fawrth y 13eg o Ragfyr 2018.

- 1. Presennol:** Barry Bracegirdle (Cadair), Justin Davies, Iona Wyn Jones – Penygroes; Gwyndaf Roberts, OP Huws – Llanllyfni; Harry Wyn Owen – Talysarn; Dafydd Thomas – Nebo; Mair Edwards (Grwp Cynefin) eitem 3; Judith Humphreys – Cyngorydd Sir (ymddiheuriad wedi ei dderbyn y byddai yn hwyr yn cyrraedd y cyfarfod) / **Ymddiheuriadau** – Hefina Roberts – Llanllyfni; Ffion Jones – Nantlle; Dylan Herbert a Nerys Williams – Penygroes; Nora Jones – Talysarn; Craig ab Iago – Cyngorydd Sir.
- 2. Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir.** Neb yn datgan buddiant.
- 3. Gwadd – Mair Edwards – Rheolwr Mentrau Cymuned’.** Croesawyd Mair i’r cyfarfod. Rhoddodd ddiweddariad i’r Cyngor am drafodaethau a chyfarfodydd sydd wedi eu cynnal i drafod Canolfan Feddygol arloesol i Dyffryn Nantlle. Y weledigaeth yw datblygu campws feddygol fwy, a sefydlu gwasanaethau iechyd integredig. Dywedodd fod bwrdd prosiect wedi ei sefydlu, a bod cydweithio rhwng Cynefin a’r Bwrdd Iechyd. Gweithdy cychwynnol bositif iawn wedi ei gynnal gyda’r meddygon teulu a’r fferylllydd. Cyfarfod nesaf ym mis Ionawr – gofynwyd am gynrychiolaeth o’r Cyngor Cymuned ar y Bwrdd – Iona, Justin a Dafydd yn rhoi eu enwau ymlaen, a phenderfynwyd y byddai’r Cyngor yn enwebu Cadeirydd cyfredol y Cyngor yn ogystal. Y Clerc i yrru manylion ebost y Cyngorwyr iddi.
- 4. Cywirdeb cofnodion cyfarfod Tachwedd.** Cywirdeb – Ifor Gruffydd (nid Ioan) – Harry yn cynnig cywirdeb y cofnodion a Dafydd yn eilio. Judith yn cyrraedd y cyfarfod.
- 5. Cyngorwyr Sir – Adroddiadau.** Derbyniwyd adroddiad yn ysgrifenedig gan Judith ac ar lafar. Adroddodd i’r Cyngor fod Fforwm Ieuenctid wedi ei sefydlu yn Ysgol Dyffryn Nantlle. Diolchodd Barry Judith am fynd o amgylch gydag ef a Swyddog o Gyngor Gwynedd i weld y diffygion oedd angen sylw yn y Dyffryn – mae’r hyn a gytunwyd i weld yn dwyn ffrwyth yn barod.
- 6. Materion yn codi o’r cyn gofnodion ac ymatebion Cyngor Gwynedd.** Comisiwn Ffiniau – mae tan y 28ain i ymateb i’r argymhellion. Llythyr ychwanegol i’w yrru gan y Cyngor Cymuned yn cefnogi ac yn ategu teimladau a dymuniadau trigolion Nebo; Quarrymans Arms – derbyniwyd ymateb yn ol gan Cyngor Gwynedd yn datgan nad yw’r canghennau yn effeithio ar drafnidiaeth. Gofynwyd i’r Clerc gysylltu gyda’r perchnogion i ofyn os y byddai bosib iddynt dacluso’r safle; Derbyniwyd ymateb gan Cyngor Gwynedd i’n cwyn fod y biniau ailgylchu yn cael eu symud o Talysarn – gofynwyd i Gynghorwyr Talysarn gadw llygad ar y sefyllfa ac adrodd yn ol am unrhyw broblemau. Gyrru linc ‘partneriaid sgwrsio’ i’r Cyngorwyr.
- 7. Materion Pentrefi Penygroes** – Angen cysylltu efo Huw Williams Cyngor Gwynedd i ofyn iddo roi sylw i’r coed sy’n tyfu drosodd o’r ffordd osgoi i Gae Chwarae Cwtin; Golwg ar ol y casgliad cert glas ailgylchu dydd Sadwrn – darnau mawr o gardfwrdd ac ati ar hyd y lle, gresyn nad oeddynt wedi eu codi i fyny gan y gweithwyr – rhaid cysylltu efo Cyngor Gwynedd; Tyllau wrth 55 a 57 Trem yr Wyddfa; Loriau yn teithio i lawr drwy’r pentref o gyfeiriad Inigo Jones, ac yn troi wedyn yn y gylchfan yn ol at y ffordd osgoi. Angen arwyddion mwy eglur i rybuddio loriau rhag gwneud hyn.
Llanllyfni Parcioi yn parhau yn broblem wrth y lon at yr ysgol. Cyngor Gwynedd angen bod yn ymwybodol. Yr ysgol wedi bod yn gweithredu drwy wneud ymgyrch diogelwch a chodi ymwybyddiaeth am y peryglon. Barn y Cyngor yw yn ddelfrydol mae angen rhywun i gadw llygad tra bod plant yn croesi’r ffordd, a bod angen pwyso ar Gyngor Gwynedd i gael croeswr ffordd ar y safle; Diolch i Gerallt am drefnu torri’r gordyfiant ar yr Hen Lon; Y lon i fyny at yr ysgol yn dyllau i gyd ac angen sylw – peryglus; Cwyn wedi ei dderbyn fod y gwasanaeth bws wedi ei gwtogi yn ddi-rybudd a bod teithwyr wedi aros am fws yn ofer. Talysarn Llythyr o gwyn am gwtogi y gwasanaeth bws.
- 8. Taflen Ariannol a Chyllid.** Cymeradwywyd gan y Cyngor.
- 9. Cynllunio C18/1076/22/MW** – Tomen Lechi Taldrwst – Rhybudd ar gyfer cymeradwyaeth flaenorol i fewnlewni pwll chwarel segur. Caniatau, ond pryder eto am gynydd i drafnidiaeth trwm drwy’r Dyffryn.
- 10. Cyfarfodydd is-bwyllgor / cyfarfodydd yn ystod y mis.** Bu pwyllgor yn Ysgol Bro Llew gydag Ifor Gruffydd (Prifysgol Bangor). OP Huws wedi mynychu, a Judith Humphreys. Pryder am fewnlif o blant di-Gymraeg i’r ysgol. Penderfynwyd yn y cyfarfod bod angen sefydlu grwp trafod lleol – OP yn fodlon bod ar y grwp, ac awgrymwyd rhoi enw Nora (Talysarn) ymlaen hefyd. Trafod eto mis nesaf.
- 11. Gohebiaeth**

***Cyngor Gwynedd:**

*Hysbysiad cau ffordd. Wedi bod, er gwybodaeth.

*Cofnodion Delwedd Dyffryn Nantlle. Er gwybodaeth.

*Llithren Cwtin – llythyr gan Cyngor Gwynedd yn hysbysu fod angen tynnu'r llithren o'r cae chwarae gan ei fod wedi rhydu i'r pwynt ble mae'r strwythur yn beryglus. Y Cyngor yn gresynu fod diffyg monitro cyflwr, ac felly diffyg cynnal a chadw, wedi golygu fod y cyflwr wedi dirywio cyn gymaint heb sylwi. Mae angen pwysu am gael llithren arall yn ei le, gan fod hwn yn golled adnodd arall i'r pentref.

***Arall**

*Chwarae Dros Gymru – cylchgrawn a newyddlen. Ar y bwrdd.

*Comisiwn Ffiniau Cymru – hysbysebion i'w arddangos. Derbyn.

*Clerks and Councils Direct. Ar y bwrdd.

*Ifor Griffith – Dysgwyr y Dyffryn. Rhannu manylion y ddolen we i'r Cynghorwyr er mwyn anog dysgwyr i gofrestru.

*Ffion Llwyd Jones – Dorothea Lakes. Cynnig i gyfarfod mis Chwefror.

*Un Llais – Heneiddio; Carers Wales; Bwletin; Cofnodion cyfarfod Dwyfor; Dyddiadau Hyfforddiant. Er gwybodaeth.

*Taliadau Adran 137. Er gwybodaeth.

*B Thomas – diweddariad Mentrau Cymuned. Eitem 3 – Mair Thomas wedi mynychu'r cyfarfod heno i'n diweddar.

*Swydd Ddisgrifiad. Angen adolygu ar ol mwy o ymchwil. Y Clerc i gysylltu efo Antur Nantlle i ofyn os oes posib cael cyfeiriad ebost newydd i'w ddefnyddio ar gyfer y Cyngor Cymuned ac yn gysylltiedig a'r wefan. Cwyn wedi ei dderbyn fod hen rif ffôn y Clerc yn parhau mewn un rhan o wefan y Cyngor Cymuned. Y Clerc am drefnu i hyn gael ei gywiro.

*Llythyr gan Gyngor Tref Frenhinol Caernarfon i ofyn am gefnogaeth i'w cais i drïo denu Eisteddfod Genedlaethol i Gaernarfon ar yr un ffurf a'r un ym Mae Caerdydd eleni. Deallir fod Eisteddfod Caerdydd wedi gwneud colled fawr gan nad oedd tal mynediad, ac felly roedd pryder os y byddai Eisteddfod o'r fath yn cael ei chynnal yng Nghaernarfon y byddai targedau Cynghorau Cymuned yn uwch. Y Cyngor yn cefnogi Caernarfon fel lleoliad mewn egwyddor, ond yn bryderus am dargedau uwch i Gynghorau.

12. Biniâu Halen Dim ymateb gan Gyngor Gwynedd. Judith am geisio cyfarfod gyda'r Swyddog i roi pwysau i ymateb yn ol, gan fod hyn yn fater argyfwng erbyn rwan.

13. Clwb Ieuentid Staff wedi ei penodi, gobeithio cychwyn dechrau'r flwyddyn ar ol cwblhau gwaith papur. Gofynnodd Judith sut y byddai'r Cyngor yn teimlo pe byddai gweithgaredd efo artist graffiti er enghraifft yn cael ei drefnu i wneud rhywbeth efo'r ieuentid yn yr arosfa bws yn Penygroes. Pawb yn cytuno.

14. Llwybrau a Mynwentydd. Polion - Lon Eifion - i atal cerbydau rhag mynd ar y bont dros y ffordd osgoi angen eu ail-osod, cerbydau yn mynd arni. Cysylltu efo'r swyddog yng Nghyngor Gwynedd. Coed yn hongian drosodd ar Lon Eifion ac yn beryglus – cysylltu efo'r swyddog yng Nghyngor Gwynedd a Gerallt y Swyddog Llwybrau am union leoliad y coed; Llwybr 43 at Pont y Cim (Hen Felin) angen ei thrwsio; Beddi Cadw – trafod fis nesaf y syniad o godi premiwm ar ben pris bedd ar gyfer prynu beddi cadw; Ffens sydd wedi ei gadael ar ol y gwaith walio yn MacPelah – y tir feddiannwr yn cael cadw'r ffens, ond ei hun yn gyfrifol am ei thynnu; Harry yn datgan fod y giat ddim yn ffitio yn iawn rhwng y pyst; Gofyn am y bil terfynol am y gwaith yn MacPelah. (OPH); Gyrru copi o'r gofynion diogelwch cerrig beddi (gan y cwmni yswiriant) i'r ymgymerydd er gwybodaeth.

15. Materion yn ymweud a'r heddlu. Dim yn codi.

16. **Materion ariannol** – *Anfonebau: A Johnson – derbynebau £35.00; A Johnson – Ffon/Rhyngwyd £25; Scottish Power - £33.42; Wales Audit £335.70. Caniatu.

Ceisiadau am arian – trafod fis Chwefror.